

## Trosolwg

### Trosolwg o benderfyniadau drafft ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru

**Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein penderfyniadau drafft o reolaethau prisiau ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru ar gyfer y pum mlynedd o 1 Ebrill 2015.**

Yn 'Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – penderfyniadau cyn-gymhwyso' (Saesneg) gwnaethom wahodd pob un o'r 16 cwmni nad oedd wedi cymhwyso at gyfer statws uwch i wneud cais am benderfyniad drafft o reolaethau prisiau 2015-20 erbyn mis Mehefin yn hytrach na mis Awst 2014.

Ar 6 Mai gwnaethom gadarnhau y byddai dau gwmni, Northumbrian Water a Dŵr Cymru, yn derbyn penderfyniad drafft cynnar. Rydym wedi gwneud ein penderfyniadau drafft ar gyfer y ddau gwmni yn gynt nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Mae'r ddau gwmni wedi cyflwyno cynlluniau sy'n cyflawni'r canlyniadau y mae eu cwsmeriaid eisiau a rhai y gallant eu fforddio. Mae hyn wedi digwydd oherwydd cyfuniad o well ymglymiad y Bwrdd, yr her a ddarparwyd gan y grwpiau her cwsmeriaid a chymhelliannau rheoleiddiol wedi'u targedu. Am y rhesymau hyn, ac oherwydd bod datblygiad y cynlluniau wedi eu harwain gan Fyrddau unigol y cwmnïau, rydym hefyd yn gweld mwy o wahaniaeth ynglŷn â beth fydd y cwmnïau yn ei gyflawni i gwsmeriaid nac a welwyd yn y gorffennol.

Mae'r adolygiad seiliedig ar risg wedi bod yn bwysig mewn gwella safon cynlluniau busnes drwy dynnu sylw at agweddau o gynlluniau Rhagfyr 2013 oedd angen eu datblygu ymhellach. Yn yr un modd, mae yna hefyd newidiadau pwysig yn y cynlluniau diwygiedig – yn fwyaf amlwg ynglŷn â chost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli – gan fod y cwmnïau wedi ceisio rhoi ystyriaeth i'n [canllawiau risg a gwobrau](#) (Saesneg).

Er y bu nifer o newidiadau cadarnhaol i'r cynlluniau busnes, mewn nifer fechan o achosion bu'n rhaid i ni ymyrryd er mwyn diogelu cwsmeriaid. Bwriad yr ymyriadau wedi'u targedu a chymesur ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru yw sicrhau bod cwmnïau dim ond yn cael eu gwobrwyo am gyflawni i'w cwsmeriaid. Rydym yn disgwyl y gallai'r ddau gwmni fynd i'r afael â'n pryderon mewn rhai meysydd ac felly ni fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer eu cwsmeriaid yn hysbys hyd nes y ceir penderfyniadau terfynol.

Gwahoddwn sylwadau ar y penderfyniadau drafft hyn erbyn **4 Gorffennaf 2014**. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl werthoedd yn y ddogfen hon mewn prisiau 2012-13.

## **Crynodeb o benderfyniadau drafft Northumbrian Water a Dŵr Cymru**

**Bydd y ddau gwmni yn gostwng biliau'n gymharol â chwyddiant, yn darparu gwell gwasanaethau ac yn bodloni eu rhwymedigaethau statudol yn y cyfnod rheoli nesaf.**

Mae ein penderfyniadau drafft wedi eu seilio ar gynlluniau busnes diwygiedig y cwmnïau, a gyflwynwyd ar 2 Mai 2014. Fodd bynnag, yn wahanol i'n triniaeth o'r cynlluniau busnes cwmnïau uwch – y gwnaethon eu derbyn yn eu cyfarwydd – rydym wedi gwneud nifer fechan o ymyriadau i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. Mae'r **wybodaeth a grynhwir yn y nodyn hwn yn adlewyrchu ein penderfyniad ar sail cynllun y cwmni yn dilyn ein hymyriadau**, sydd hefyd wedi eu crynhoi ar ddiwedd y nodyn hw.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r canlynol:

- yr effaith y bydd pob penderfyniad drafft yn ei gael ar filiau cyfartalog cwsmeriaid preswyl;
- y canlyniadau y bydd pob cwmni yn eu cyflawni ar gyfer ei gwsmeriaid;
- y refeniw a'r enillion a ganiateir ar gyfer pob cwmni; a'r
- meysydd lle rydym wedi ymyrryd.

Mae manylion penderfyniadau drafft Northumbrian Water a Dŵr Cymru wedi eu nodi yn yr atodiad cwmni-benodol perthnasol.

### **Biliau cyfartalog cwsmeriaid preswyl**

Mae Tabl 1 yn nodi effaith ein penderfyniadau drafft ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru ar filiau cyfartalog cwsmeriaid preswyl dros gyfnod 2015-20. Erbyn 2019-20, **bydd biliau cyffredinol ar gyfer gwasanaethau rheoledig a ddarperir yn uniongyrchol yn disgyn gan tua 2% a 5% mewn termau real ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru yn y drefn honno**, yn gymharol â biliau cyfartalog yn 2014-15. Nid ydym wedi cyfrifo ar wahân y biliau cyfartalog ar gyfer y ddau ranbarth a wasanaethir gan Northumbrian Water (Gogledd Ddwyrain Lloegr ac yn Essex a Suffolk). Mae hyn oherwydd nad ydym yn gosod rheolaethau ar wahân ar gyfer y gwahanol ranbarthau.

Mae proffil biliau ar gyfer pob cwmni yn adlewyrchu'r proffiliau a gynigiwyd yn eu cynllun busnes diwygiedig.

I'yn adolygiad prisiau 2014 rydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i gwmnïau ynglŷn ag a ydynt wedi treulio' costau – gan eu hadennill yn y cyfnod rheoli cyfredol – neu a ydynt wedi eu hychwanegu i'r gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) i gael eu dibrisio dros nifer o gyfnodau rheoli. Mae Northumbrian Water a Dŵr Cymru wedi defnyddio'r ysgogwyr arianadwyedd hyn mewn gwahanol ffyrdd, er mai'r effaith gyffredinol fu i gynyddu cost a adenillir yn y cyfnod 2015-20 a lleihau twf RCV o gymharu â'u cynlluniau Rhagfyr. Caiff hyn yr effaith o rannu manteision cost is cyfalaf rhwng 2015-20 a thu hwnt i'r cyfnod hwn, gan gydbwyso gwella fforddiadwyedd cynlluniau gyda chynnal arianadwyedd.

Er ein bod wedi cyflwyno'r offer hyn yn benodol i fynd i'r afael â materion arianadwyedd (fel y mae'r ddau gwmni wedi ei wneud), ein disgwyliad yw y bydd pob cwmni yn parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid ar ddefnydd yr ysgogwyr hyn ac yn arbennig goblygiadau eu defnydd ar gyfer biliau presennol a rhai'r dyfodol.

**Tabl 1 Crynodeb o filiau cyfartalog cwsmeriaid preswyl**

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Newid (£)
Bil cwsmer – Northumbrian Water	368	362	362	362	362	362	6
Bil cwsmer – Dŵr Cymru	416	409	407	403	398	396	21

**Nodiadau:**

Mae biliau cwsmeriaid ar gyfer ein penderfyniad drafft wedi eu seilio ar ddewis goblygedig dewislen.

Rydym yn defnyddio biliau preswyl cyfartalog i roi syniad bras o'r symudiad y bydd cwsmeriaid yn ei weld, ond bydd yr union fil yn dibynnu ar amodau penodol y cwsmer unigol.

Mae'r bil cyfartalog ar gyfer cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth wedi ei ddangos mewn termau real. Caiff addasiad ar gyfer chwyddiant (yn ymwneud â'r rheolaeth gyfanwerthol) hefyd ei adlewyrchu yn y biliau y bydd cwsmeriaid yn eu talu.

Fel gyda'r penderfyniadau drafft uwch, mae'r bil cyfartalog cwsmeriaid a ddangosir uchod yn adlewyrchu dyraniad tybiannol (gan Ofwat ond yn seiliedig ar raniad y cwmni o breswyl a dibreswyl) o'r gofyniad referniw cyffredinol ar draws ystod cwsmeriaid Northumbrian Water. Yn ymarferol, bydd gan gwmnïau rywfaint o hyblygrwydd ynglŷn â sut y maent yn adennill y gofyniad referniw o wahanol fathau o daliadau. Rhaid i brisiau cwmnïau fod yn unol â'n rheolau codi pris, y byddwn yn ymgynghori arnynt yn fuan.

## Canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid

Mae'r canlyniadau yn y penderfyniadau drafft yn adlewyrchu blaenoriaethau a'r ymrwymadau priodol y mae Northumbrian Water a Dŵr Cymru wedi eu datblygu mewn ymgynghoriad â'u cwsmeriaid eu hunain.

Rydym yn crynhoi'r canlyniadau ar gyfer y ddau gwmni yn nhablau 2 a 3 isod. Mae manylion llawn ymrwymadau perfformiad y ddau gwmni wedi eu nodi yn yr atodiadau cwmni-benodol sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Yn y maes hwn yn arbennig, rydym yn cydnabod bod gwaith y CCGau wedi sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru yn adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid.

**Tabl 2 Crynodeb o ganlyniadau Northumbrian Water**

Dŵr cyfanwerthol	Dŵr gwastraff cyfanwerthol	Manwerthol
<b>Darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff sy'n bodloni anghenion y cwsmeriaid presennol a chenedlaethau'r dyfodol mewn byd sy'n newid</b> – yn cynnwys cymryd camau i fonitro, diogelu a chymell iechyd cynaliadwy hirdymor asedau	<b>Darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff sy'n bodloni anghenion y cwsmeriaid presennol a chenedlaethau'r dyfodol mewn byd sy'n newid</b> – yn cynnwys cymryd camau i fonitro, diogelu a chymell iechyd cynaliadwy hirdymor asedau	<b>Manwerthwr o ddewis i gwsmeriaid busnes</b> – drwy fesur bodlonrwydd cwsmeriaid busnes
<b>Cyflenwi dŵr yfed glân a chilir sy'n blasu'n dda</b> – yn cynnwys cynnal y lefel cyffredinol o gydymffurfiad dŵr yfed	<b>Darparu gwasanaeth carthffosiaeth sy'n ymdrin yn effeithiol â charthion a glaw trwm</b> – yn cynnwys sicrhau nad yw'r lefelau cyffredol o orlifo carthfosydd yn cynyddu	<b>Darparu gwasanaeth rhagorol a gwneud argraff dda ar ein cwsmeriaid</b> – yn cynnwys mesur perfformiad yn erbyn sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol annibynnol

Dŵr cyfanwerthol	Dŵr gwastraff cyfanwerthol	Manwerthol
<b>Darparu cyflenwad dŵr dibynadwy a digonol</b> – yn cynnwys lleihau'r targed ar gyfer gollyngiadau yn rhanbarth gweithredu y Gogledd (Northumbrian) a'i gynnal yn rhanbarth gweithredu y De (Essex a Suffolk)	<b>Cynorthwyo i wella ansawdd afonydd a dyfroedd arfordirol er budd pobl, yr amgylchedd a bywyd gwylt</b> – yn cynnwys sicrhau bod y nifer presennol o ddigwyddiadau llygredd ddim yn cynyddu	<b>Mae ein cwsmeriaid yn ystyried y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn werth am arian</b> – yn cynnwys drwy arolwg gwerth am arian annibynnol
<b>Darparu gwasanaeth rhagorol a gwneud argraff dda ar ein cwsmeriaid</b> – yn cynnwys mesur perfformiad yn erbyn sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol annibynnol	<b>Darparu gwasanaeth rhagorol a gwneud argraff dda ar ein cwsmeriaid</b> – yn cynnwys mesur perfformiad yn erbyn sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol annibynnol	<b>Mae cwsmeriaid yn wybodus ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a gwerth dŵr</b> – drwy arolwg annibynnol ar gadw cwsmeriaid yn hysbys
<b>Mae cwsmeriaid yn wybodus ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a gwerth dŵr</b> – drwy arolwg annibynnol ar gadw cwsmeriaid yn hysbys	<b>Mae cwsmeriaid yn wybodus ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a gwerth dŵr</b> – drwy arolwg annibynnol ar gadw cwsmeriaid yn hysbys	<b>Diogelu a gwella'r amgylchedd wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan arwain drwy esiampl</b> – yn cynnwys lleihau'r lefelau presennol o allyriadau nwy tŷ gwydr
<b>Diogelu a gwella'r amgylchedd wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan arwain drwy esiampl</b> – yn cynnwys lleihau'r lefelau presennol o allyriadau nwy tŷ gwydr	<b>Diogelu a gwella'r amgylchedd wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan arwain drwy esiampl</b> – yn cynnwys lleihau'r lefelau presennol o allyriadau nwy tŷ gwydr	

Tabl 3 Crynodeb o ganlyniadau Dŵr Cymru

Dŵr cyfanwerthol	Dŵr gwastraff cyfanwerthol	Manwerthol
<b>Dŵr yfed diogel a glân</b> – yn cynnwys cynnal cydymffurfiad â safonau dŵr yfed	<b>Diogelu ein hamgylchedd</b> – yn cynnwys lleihau nifer y digwyddiadau o lygredd	<b>Gwasanaeth cwsmeriaid ‘gorau yn y dosbarth’</b> – yn cynnwys gwella perfformiad mewn arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid dibreswyl
<b>Diogelu ein hamgylchedd</b> – yn cynnwys sicrhau cydymffurfiad â thrwyddedau ar gyfer echdynnu dŵr i’w ddefnyddio	<b>Ymateb i newid hinsawdd</b> – yn cynnwys lleihau swm y dŵr arwyneb mewn rhwydwaith dŵr gwastraff	<b>Prisiau fforddiadwy</b> – yn cynnwys, ar gyfer cwsmeriaid preswyl, cynyddu nifer y cwsmeriaid sy’n dioddef o amddifadedd sy’n elwa o dariffau cymdeithasol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl gan gynnal biliau fforddiadwy
<b>Ymateb i newid hinsawdd</b> – yn cynnwys cynyddu swm yr ynni adnewyddadwy a grëir	<b>Gwasanaeth cwsmeriaid ‘gorau yn y dosbarth’</b> – yn cynnwys lleihau nifer y gwahanol eiddo sy’n dioddef llifogydd o garthffosydd	
<b>Gwasanaeth cwsmeriaid ‘gorau yn y dosbarth’</b> – yn cynnwys lleihau nifer y cwsmeriaid sy’n profi gwasanaeth gwael	<b>Prisiau fforddiadwy</b> – drwy gynnal biliau fforddiadwy	
<b>Prisiau fforddiadwy</b> – drwy gynnal biliau fforddiadwy	<b>Stiwardiaeth asedau</b> – yn cynnwys gwella gwytnwch asedau	
<b>Stiwardiaeth asedau</b> – yn cynnwys lleihau lefelau presennol gollyngiadau		

Ar gyfer dŵr manwerthol preswyl, bydd pob cwmni, yn cynnwys Northumbrian Water a Dŵr Cymru, yn cael eu mesur yn erbyn y mecanwaith cymell gwasanaeth (SIM). Mae’r SIM yn cynnwys gwobrau a chosbau i gymhell perfformiad rhagorol ar gyfer cwsmeriaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio ag ymestyn cystadleuaeth manwerthol i gwsmeriaid dibreswyl Dŵr Cymru sy'n defnyddio llai na 50 MI y flwyddyn. Oherwydd hyn bydd y rheolaethau prisiau dibreswyl yn cynnwys cymhelliant gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau i gwsmeriaid dibreswyl a wasanaethir gan gwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

### Refeniw ac adenillion a ganiateir

Mae'r pecyn risg a gwobrau a gyflwynwyd gan y ddau gwmni yn adlewyrchu ein canllawiau risg a gwobrau. Yn arbennig, mae Northumbrian Water a Dŵr Cymru wedi mabwysiadu cost gyfartalog manwerthol a bwysolwyd o gyfalaf sef 3.7% a gorsymiau manwerthu net o 1% a 2.5% ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl yn y drefn honno.

Er gwaethaf defnyddio mewnbynnau tebyg, mae'r ddau gwmni wedi defnyddio'r ysgogwyr arianadwyedd unigol mewn gwahanol ffyrdd. Fel y nodwyd uchod, mae'r ddau gwmni wedi defnyddio ysgogwyr i ddwyn arian parod ymlaen o gymharu â'u cynlluniau mis Rhagfyr. Fodd bynnag, yn eu cynlluniau mis Rhagfyr, mabwysiadwyd gwahanol ddulliau ganddynt i gydbwysu rhwng arian parod yn y cyfnod a thwf RCV ac mae'r gwahaniaethau hyn yn dal i gael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau hyn. Er enghraifft, yn gyson â'i gynllun mis Rhagfyr, mae Northumbrian Water yn cymryd mwy o arian parod yn y cyfnod nesaf ar draul twf RCV drwy ddefnyddio lleihad RCV cyflymach ac felly adennill RCV dros gyfnod byrrach o amser – canlyniad hyn yw biliau cymharol uwch yn 2015-20 a biliau is yn y dyfodol, gan y rhagwelir y bydd yr RCV nawr yn lleihau'n gronnes gan 0.3% rhwng 2015-20. Mewn cyferbyniad, mae Dŵr Cymru yn tyfu'r RCV drwy ddefnyddio lleihad RCV arafach o asedau (2.6% o gymharu â defnydd Northumbrian Water o 6.1%)<sup>1</sup>, sy'n arwain at filiau cymharol is yn 2015-20 ond biliau cymharol uwch yn y dyfodol, wrth i'r RCV dyfu'n gronnes gan 6.8% rhwng 2015 a 2020.

Fe wnaeth Northumbrian Water a Dŵr Cymru dynnu'n ôl yr addasiad i'w cost gyfartalog manwerthol i wasanaethu (ACTS) ar gyfer pwysau pris mewnbwn dros gyfnod 2015-20. Yn ogystal, tynnodd Northumbrian Water ei addasiad arfaethedig ar gyfer dyled ddrwg oherwydd amddifadedd yn ôl. Ar y llaw arall, cyflwynodd Dŵr Cymru dystiolaeth ddiwygiedig ar yr addasiad dyled ddrwg ac, er ein bod yn cytuno, rydym wedi ymyrryd parthed maint yr addasiad.

---

<sup>1</sup> Mabwysiadodd Northumbrian Water dibrisiaid llinell syth a mabwysiadodd Dŵr Cymru falans dibrisiad yn lleihau.

Mae Tabl 4 isod yn amlinellu elfennau craidd ein penderfyniadau drafft parthed costau ac adenillion a ganiateir – ar gyfer pob un o'r pedwar gwahanol reolaethau prisiau ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru.

**Tabl 4 Crynodeb o gostau ac adenillion**

	Costau/gwariant a ganiateir	Northumbrian Water	Dŵr Cymru
Manwerthol preswyl	Lwfans cost – cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	252.3	234.7
	Gorswm (%)	1.0	1.0
	Bil cyfartalog fesul cwsmer preswyl – elfen fanwerthol yn unig (£)	33	40
Manwerthol dibreswyl	Lwfans cost – cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	36.6	25.6
	Gorswm (%)	2.5	2.5
Dŵr cyfanwerthol	Totex – cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	1,330.7	1,235.8
	Adennill cost a ganiateir yn 2015-20 <sup>1</sup> (£ miliwn)	1,398.9	1,119.0
	Cost gyfartalog wedi ei phwysoli o gyfalaf a ganiateir (%)	3.7	3.7
	Refeniw cyfanwerthol a ganiateir yn 2015-20 <sup>2</sup> (£ miliwn)	1,910.7	1,307.9
Dŵr gwastraff cyfanwerthol	Totex – cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	1,004.9	1,357.9
	Adennill cost a ganiateir yn 2015-20 <sup>1</sup> (£ miliwn)	946.3	1,151.2
	Cost gyfartalog wedi ei phwysoli o gyfalaf a ganiateir (%)	3.7	3.7
	Refeniw cyfanwerthol a ganiateir yn 2015-20 <sup>2</sup> (£ miliwn)	1,384.1	1,753.5

**Nodiadau:**

1. Yn cynnwys gwariant a dibrisiad talu wrth fynd (PAYG) – ond nid yw'n cynnwys adenillion ar gyfalaf na threth, ac nid yw'n cael ei addasu ar gyfer incwm o gyfraniadau cyfalaf neu daliadau cysylltu.
2. Cynnwys adenillion ar RCV, dibrisiad ar RCV, gwariant PAYG, lwfans treth, ac addasiadau'n seiliedig ar berfformiad 2010-15. edi ei addasu hefyd i ddiynnu incwm o ffynonellau eraill, er mwyn ychwanegu cyfraniadau cyfalaf o daliadau cysylltu a refeniw o daliadau seilwaith, er mewn ychwanegu incwm dewislen rhag-ernes ychwanegol ac i wneud addasiadau modelu eraill.



O dan y rheolaethau prisiau yn y penderfyniadau drafft hyn, bydd buddsoddwyr yn cael enillion teg am y risgiau y maent yn eu cymryd cyn belled â bod y cwmnïau yn cyflawni'r cynlluniau a'r ymrwymïadau. Bydd y cwmnïau yn gallu rhannu gwobrau ychwanegol gyda'u cwsmerïaid os byddant yn perfformio'n well na'r targedau a nodir yn eu cynlluniau. Rydym yn ystyried bod y potensial i gwmnïau ennill gwobrau ariannol ychwanegol yn rhoi cymhelliant cryf iddynt roi gwerth ychwanegol ar gyfer eu cwsmerïaid ac i berfformio'n well na'r costau a ganiateir iddynt.

Fel yr eglurwyd yn '[Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – diweddariad polisi a gwybodaeth](#)', rydym yn cynnig 'dewislen safonol' ar gyfer cymhelliannau i berfformio'n well na'r gost ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru. Mae hyn yn wahanol i ddewislen South West Water ac Affinity Water, a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer y cwmnïau hynny y dyfarnwyd statws uwch iddynt. Mae rhagor o fanylion wedi eu nodi yn Atodiad 2 pob un o'r atodiadau cwmni-benodol.

### **Y meysydd lle rydym wedi ymyrryd**

Gwnaethom nodi rhai meysydd lle rydym wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol i ymyrryd er mwyn diogelu buddiannau cwsmerïaid. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft:

- os ydym yn ystyried nad yw'r cwmni wedi darparu digon o dystiolaeth i gefnogi cynnig;
- os nad yw'r cynigion yn ddigon heriol; neu
- os nad yw'r cynigion er budd cwsmerïaid.

Rydym yn egluro manylion a'r rhesymau dros bob ymyrraeth yn yr adrannau priodol o'r atodiad cwmni-benodol perthnasol. Mae Tabl 5 isod yn crynhoi ein hymyriadau.

**Tabl 5 Crynodeb o'r ymyriadau ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru**

Maes ymyrraeth	Beth wnaethom	Pam y gwnaethom hyn
<b>Northumbrian Water</b>		
<b>Canlyniadau</b>	<p>Rydym wedi ymyrryd parthed nifer cyfyngedig o ymrwymadau perfformiad ac ODIau.</p> <p>Yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fe wnaethom gynyddu'r ymrwymiad perfformiad ar gyfer cydymffurfiad dŵr yfed yn gyffredinol;</li> <li>• fe wnaethom ddileu'r agwedd gwobrau oedd yn ymwneud â rhai cymhelliannau ariannol;</li> <li>• rydym wedi diwygio 'deadbands' a gynigwyd gan y cwmni ar gyfer nifer o gymhelliannau cyflawni; ac</li> <li>• rydym wedi eithrio'r cymhelliannau dim ond enw da a gynigwyd yn ymwneud â: (i) chynnal y graddiad credyd angenrheidiol; a (ii) chwmi effeithlon ac arloesol.</li> </ul>	<p>Yn gyson â'n methodoleg derfynol, rydym wedi ymyrryd er mwyn sicrhau bod ymrwymadau perfformiad – a gwobrau cysylltiedig – yn ddigon ymestynnol ar gyfer y cwmni.</p> <p>Parthed cost 'deadbands', rydym wedi tynhau'r band er mwyn sicrhau bod Northumbrian Water wedi'i gymhell yn well i beidio â gadael i wasanaeth ddirywio yn is na'r ymrwymiad perfformiad. Ar yr ochr gwobrau mae hyn yn bennaf wedi ymwneud â chynyddu'r 'deadband' er mwyn sicrhau y gall Northumbrian Water dim ond ennill gwobrau pan fydd yn dangos perfformiad ymestynnol.</p> <p>Nid ydym yn ystyried bod mecanwaith cymell ar raddiad credyd yn angenrheidiol; er mwyn cael cysondeb gyda chwmi eraill nad sydd wedi cynnig cymhelliant o'r fath, mae wedi ei eithrio.</p> <p>Yn yr un modd, mae'r canlyniad ar gyfer "cwmni effeithlon ac arloesol" yn gyfrwng i gyflawni ei gynllun busnes nid yn ganlyniad ynddo'i hun.</p>
<b>Cysoni perfformiad 2010-15</b>	<p>Rydym wedi ymyrryd drwy leihau'r addasiadau'n ymwneud â pherfformiad 2010-15. Caiff hyn yr effaith o leihau'r gofyniad refeniw gan £21 miliwn.</p> <p>Cynigodd Northumbrian Water addasiadau (refeniw) o tua £96 miliwn. Fodd bynnag, rydym wedi mabwysiadu safiad gwahanol parthed y mecanwaith cywiro refeniw,</p>	<p>Roeddem yn anghytuno gyda'r ffordd y gwnaeth y cwmni gyfrifo nifer o addasiadau.</p> <p>Parthed y mecanwaith cywiro refeniw, ni wnaeth y cwmni ddarparu digon o dystiolaeth am yr angen a'r cyfiawnhad i amnewid niferoedd eiddo o ganlyniad i newidiadau adrodd.</p> <p>Parthed lwfans cymhelliant opex, gwnaethom ymyrryd oherwydd nad</p>

Maes ymyrraeth	Beth wnaethom	Pam y gwnaethom hyn
	<p>Iwfans cymhelliant opex a CIS. Yr effaith yw ein bod wedi penderfynu ar addasiadau etifeddol o £75 miliwn.</p> <p>Rydym hefyd wedi gwneud addasiadau i'r RCV (a gofyniad refeniw) parthed nifer o allbynnau o'n penderfyniad terfynol yn 2009 (FD09).</p>	<p>oes gwell perfformiad na'r disgwyl cynaledig wedi'i gysylltu ag un o'r cynlluniau.</p> <p>Rydym wedi ymyrryd parthed allbynnau FD09 oherwydd naill ai (i) nid oes angen rhai o'r allbynnau mwyach neu (ii) nid ydym yn credu, yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol, y bydd Northumbrian Water yn cyflawni'r holl allbynnau y cafodd ei ariannu i'w cyflawni.</p>
<b>Manwerthol</b>	<p>Ni wnaethom addasu'r gost i wasanaethu ar gyfer costau newydd gan y swm llawn yr oedd y cwmni yn ei gynnig.</p>	<p>Ni wnaeth y cwmni ddangos yn glir bod y costau newydd y rhai mwyaf cost-fuddiol neu effeithlon.</p>
<b>Risg a gwobrau</b>	<p>Fe wnaethom dynnu'r mecanwaith ansicrwydd a gynigwyd gan y cwmni ar gyfer rhwymedigaethau statudol newydd.</p> <p>Gwnaethon addasu cynnig y cwmni ar gyfer mecanwaith ansicrwydd ar gyfer taliadau treth busnes dŵr fel bod 75% o amrywiadau cost sy'n cymhwyso'n effeithlon a asesir mewn interim yn pasio ymlaen i gwsmeriaid.</p>	<p>Mae'r ymyriad hwn yn diogelu cwsmeriaid rhad ysgwyddo risgiau sydd ddim wedi eu cyfiawnhau'n dda neu nad oes sail iddynt.</p>
<b>Dŵr Cymru</b>		
<b>Canlyniadau</b>	<p>Rydym wedi ymyrryd parthed nifer cyfyngedig o ymrwymadau perfformiad ac ODIau.</p> <p>Yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwnaethom leihau uchafswm y gwobrau blynyddol sydd ar gael ar gyfer rhai cymhelliannau cyflawni canlyniad (ODIau) (gan tua £22 miliwn i gyd);</li> <li>• gwnaethom gynyddu uchafswm y cosbau blynyddol ar gyfer rhai ODIau (gan tua £16.5 miliwn i gyd);</li> </ul>	<p>Mewn rhai meysydd ni wnaeth y cwmni ddilyn y fethodoleg oedd yn ofynnol. Nid oedd nifer o'r gwobrau a'r cosbau a gynigwyd gan y cwmni wedi eu seilio ar barodrwydd cwsmer i dalu neu gost cyflawni, ac ni wnaeth roi ystyriaeth i rannu effeithlonrwydd totex.</p> <p>Gwnaethom hefyd ymyrryd i gynnwys asedau a drosglwyddwyd oherwydd na fydd cwsmeriaid yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau megis carthffos yn gorlifo yn poeni ynglŷn ag a</p>

Maes ymyrraeth	Beth wnaethom	Pam y gwnaethom hyn
	<ul style="list-style-type: none"> <li>gwnaethom addasu dau ymrwymiad perfformiad fel nad oedd asedau a drosglwyddwyd bellach wedi eu heithrio; ac rydym wedi eithrio'r cymhelliant dim ond enw da a gynigwyd yn ymwneud â: (i) cynnal y graddiad credyd angenrheidiol, (ii) datblygu ein pobl, ac (iii) effeithlonrwydd busnes.</li> </ul>	<p>ddaeth y gorlif o ased a oedd yn bodoli'n barod neu ased a drosglwyddwyd.</p> <p>Yn olaf, nid ydym yn ystyried bod mecanwaith cymhelliant ar raddiad credyd yn angenrheidiol; er mwyn cael cysondeb gyda chwmmiâu eraill nad sydd wedi cynnig ysgogiad o'r fath, mae wedi ei eithrio.</p> <p>Yn yr un modd, rydym yn ystyried bod datblygu ein pobl ac effeithlonrwydd busnes yn fewnbynnau nid allbynnau.</p>
<b>Cysoni perfformiad 2010-15</b>	<p>Rydym wedi ymyrryd drwy leihau ychydig yr addasiadau'n ymwneud â pherfformiad 2010-15. Caiff hyn yr effaith o leihau'r gofyniad refeniw gan £2 miliwn.</p> <p>Rydym hefyd wedi ymyrryd a gosod addasiad RCV gyda diffyg o £32 miliwn.</p> <p>Ni wnaethom dderbyn yr addasiadau a gynigiwyd i'r RCV ar gyfer penderfyniadau yn FD09.</p>	<p>Rydym wedi cynnwys diffyg ar gyfer gwasanaethadwyedd seilwaith dŵr o ganlyniad i berfformiad gwael y cwmni ar darfiadau i gyflenwad dros nifer o flynyddoedd.</p>
<b>Manwerthol</b>	<p>Gwnaethom addasiad llai ar gyfer dyled amheus a ysgogir gan amddifadedd a maint bil nag a gynigwyd gan y cwmni; ac ni wnaethom unrhyw addasiad are gyfer cost rheoli dyled (tua £9 miliwn i gyd).</p>	<p>Ni wnaeth y cwmni gynnwys unrhyw ddeunydd tystiolaeth newydd i gefnogi'r addasiad ar gyfer cost rheoli dyled.</p>
<b>Risg a gwobrau</b>	<p>Gwnaethom addasu cynnig y cwmni ar fecanwaith ansicrwydd ar gyfer taliadau trethi busnes dŵr, fel bod 75% o gostau yn cael eu pasio drwodd i gwsmeriaid.</p> <p>Nid ydym wedi caniatáu mecanwaith ansicrwydd a gynigiwyd gan y cwmni ar gyfer taliadau trethi busnes dŵr gwastraff.</p>	<p>Rydym yn ystyried bod y gyfradd rhannu cwsmer:cwmni o 75:25% yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu'r cwmni rhag risgiau mawr, darparu digon o gymhelliannau i'r cwmni leihau costau a diogelu buddiannau'r cwsmeriaid. Mae'r gyfradd rannu 80:20% a gytunwyd gyda South West Water o ganlyniad i gynllun WaterShare y cwmni.</p>

Maes ymyrraeth	Beth wnaethom	Pam y gwnaethom hyn
		Ni wnaeth y cwmni ddarparu digon o dystiolaeth yn dangos ei fod o fudd i'r cwsmeriaid i gael diogelwch penodol yn erbyn taliadau treth busnes dŵr gwastraff tra bod cwmnïau eraill yn ysgwyddo'r risg hwn.

## Penderfyniadau terfynol ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru

### Gwahoddwn sylwadau ar y penderfyniadau drafft hyn erbyn 4 Gorffennaf 2014.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i bob gwybodaeth berthnasol pan fyddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru. Felly, byddwn yn ystyried:

- cynrychioliadau gan gwmnïau a rhanddeiliaid eraill ar y penderfyniadau drafft hyn;
- gwybodaeth wedi'i diweddarau a gyflwynir gan gwmnïau yn unol â'n cais – er enghraifft perfformiad gwirioneddol a adroddwyd wedi'i ddiweddarau yn 2013-14 a pherfformiad rhagamcanedig yn 2014-15 (a nodir yn ffigur 1 isod), ynghyd ag unrhyw wybodaeth wirioneddol ategol sydd ei hangen i gadarnhau lwfansau costau ar gyfer pob cwmni yn y penderfyniadau terfynol: a
- pholisi sy'n llunio rhan o'r pecyn rheolaeth prisiau ehangach, y byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y broses rheolaethau prisiau (a nodir yn ffigur 1 isod).

Bydd y broses hon yn caniatáu i Northumbrian Water a Dŵr Cymru, a'u rhanddeiliaid, i ystyried yn llawn ac ymateb i wahanol elfennau'r fframwaith rheolaeth prisiau cyn gosod ein penderfyniadau terfynol. Fel y cadarnhawyd yn '[Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – polisi a diweddariad gwybodaeth](#)' (Saesneg), bydd Northumbrian Water a Dŵr Cymru yn derbyn triniaeth debyg i'r cwmnïau hynny sy'n derbyn eu penderfyniadau drafft ym mis Awst.

Gall cynrychioliadau ar y penderfyniadau drafft ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru gael eu hanfon drwy e-bost at [price.review@ofwat.gsi.gov.uk](mailto:price.review@ofwat.gsi.gov.uk) neu eu postio i:

Ofwat Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham  
B5 4UA.

## **Camau nesaf – perthnasol i bob cwmni**

Rydym wedi gofyn i'r 14 cwmni sy'n weddill i weithio gyda'i CCGau i roi sylw i'n hadborth o'r adolygiad seiliedig ar risg ac i adlewyrchu'r canllawiau risg a'r gwobrau cyn cyflwyno cynlluniau diwygiedig ar 27 Mehefin 2014. Os nad ydynt yn gwneud hynny byddwn yn ymyrryd i ddiogelu cwsmeriaid yn unol â'n methodoleg rheolaeth prisiau a chanllawiau ategol.

Gall yr ymyriadau hyn ganolbwyntio ar y maes canlyniadau. Mae'n well gennym fabwysiadu'r cymhelliannau a gynigwyd ar ba rai y mae'r cwmnïau wedi ymgysylltu â'u CCGau. Fodd bynnag, os nad yw cwmnïau wedi cydymffurfio â'r fethodoleg byddwn yn ystyried ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu er mwyn diogelu cwsmeriaid. Byddai unrhyw ymyriadau yn cael eu gwneud i sicrhau bod cymhelliannau'n effeithiol, gyda chosbau priodol lle bo angen, a gwobrau y gellir eu hennill dim ond wedi i'r cwmni gyflawni perfformiad ymestynnol (fel y nodir yn ['IN 14/09: Adolygiad prisiau 2014 – dull Ofwat ar gyfer asesu risg'](#) (Saesneg)).

Mae'r camau sy'n weddill yn adolygiad prisiau 2014 ar gyfer pob cwmni wedi eu crynhoi yn ffigur 1 isod.

**Ffigur 1 Camau sy'n weddill yn y broses adolygu prisiau**

